
# NEWYDDLEN COLEG ADFER



**PERTHYN - DOD - BOD**



## CROESO I AIL NEWYDDLEN 2025!

Diolch o galon i bawb sydd wedi cymryd rhan yn ein gweithdai dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Mae'ch amser, gwybodaeth a'ch arbenigedd wedi bod yn hynod werthfawr. O'ch syniadau a'ch myfyrdodau, rydym bellach wrthi'n creu adroddiad ac achos busnes, er mwyn gwneud cais am gyllid lleol a chenedlaethol. Rydym yn gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r profiad.


## CWRS PEILOT

Gwnaethom gwblhau ein cwrs peilot cyntaf ar Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yng Nghanolfan Gymunedol Nant Bran – gan ddiolch o galon i Growing Space ac Alex Kegie o Neurologik am sicrhau bod hwn yn fan cynhwysol.

Roedd adborth yn cynnwys sylwadau bod y cyfan "yn brofoclyd" a'i fod "yn wych gweld cydgynhyrchu" a bod "angen mwy o hyn".

Dyma'r hyn a oedd gan ein cyfrannwr gwadd ar gyfer y rhifyn hwn, Rob Heaton Jones o LLAIS i'w ddweud yn ei neges yn edrych yn ôl ar y cwrs peilot ar gynlluniau gofal a thriniaeth;

# GUEST CONTRIBUTER



## ROB

Voluteer with Llais

Fy nghasgliad o'r peilot cyntaf oedd bod y dull a ddefnyddiwyd yn galluogi pobl i rannu safbwyntiau a dealltwriaeth am bwnc pwysig mewn modd gonest. Roedd yn rhoi y cyfle i ni gael dealltwriaeth lwyr o'r priodoldeb, y gofynion a'r hawliau sydd gan rhywun wrth gyd-gynhyrchu Cynlluniau Gofal a Thriniaeth. O'r trafodaethau cysylltiedig, teimlais bod rhai myfyrwyr, am y tro cyntaf, yn deall yr hawliau hyn. Yr hyn yr wyf yn ei gymryd o'r trafodaethau yw y byddai'r cwrs hwn yn helpu ymgysylltiad gyda gwasanaethau yn y dyfodol.


Roddodd y peilot gyfle gwerthfawr i bob myfyriwr rannu a dysgu am bwnc pwysig mewn lleoliad priodol iddynt hwy. Wrth ddod â phobl ynghyd yn y modd hwn, roedd modd iddynt gael mwy o wybodaeth trwy gyd-ddealltwriaeth o safbwyntiau a phrofiadau. Yn ei dro fe ddylai hyn helpu i nodi a siapio newidiadau a fydd o fudd o ran mwy o ganlyniadau llwyddiannus.



# Roeddem ni'n greadigol

## WORKSHOP FEEDBACK

Dyma rai o'ch syniadau chi a gafodd eu darlunio trwy greadigrwydd. Diolch o galon gan Alice Marie a Claire Smith a ddaeth â'ch syniadau'n fyw.















# Fe ddywedasoch chi..

## WORKSHOP FEEDBACK

Gwnaeth pob un ohonoch ddweud eich bod yn teimlo bod angen model Coleg Adfer yng Ngwent a gwnaeth pob un ohonoch ddweud eich bod yn gweld gwerth yng Nghymheiriaid ac Ymarferwyr fel ei gilydd! Mae hyn yn cydfynd yn agos â safonau ffyddlondeb y model Coleg Adfer.

Gwnaethoch chi ddweud hefyd bod angen model yng Ngwent sy'n bodoli yn y gymuned ac ar-lein

## FIDELITY STANDARDS






# Beth nesaf?

## SECOND PILOT COURSE!

Mae’n bleser gennym gyhoeddi bod ail beilot ar gyfer cwrs Coleg Adfer ar Adferiad a Hunaniaeth wrthi’n cael ei lunio.

## Hoffem ni gydgynhyrchu enw’r model yng Ngwent!

.

Cawsom lawer o awgrymiadau gwych yn ymwneud â beth ddylai’r enw ar y gwasanaeth fod ac o ganlyniad, mae pôl wedi’i lansio bellach yn cynnwys deg enw posibl. I fwrw eich pleidlais, dilynwch y ddolen isod. Mae’r pôl yn dod i ben ar 1 Gorffennaf 2025 felly ewch ati i bleidleisio!

!!

**GWENT RECOVERY COLLEGE MODEL SERVICE NAME - VOTING CLOSES JULY 31ST 2025**

## ADFERIAD A HUNANIAETH

- **Dydd: Mawrth 1 Gorffennaf 2025**
- **Amser: 10 am tan 1pm**
- **Lleoliad: Canolfan Lles a Gwybodaeth y Fenni**

**Mae cadw lle’n hanfodol**

**E-bostiwch:**
**ABB.RECOVERYCOLLEGEMODELPROJECT@WALES.NHS.UK**

## JYMUNWCH Â NI AR GYFER EIN RHIFYN NESAF NEU CYSYLLTWCH Â NI I’CH ENW GAEL EI YCHWANEGU AT EIN RHESTR BOSTIO

**COFION CYNNES IAWN**
**TÎM PROSIECT MODEL Y COLEG ADFER**

